Y Pwyllgor Cyllid
Finance Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Angela Burns AC
Comisiynydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

5 Chwefror 2015

Annwyl Angela

**Cyllideb Atodol Comisiwn y Cynulliad 2014-15**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 29 Ionawr mewn cysylltiad â Chyllideb Atodol y Comisiwn. Ar hyn o bryd, nid wyf yn credu bod angen i chi ddod i'r Pwyllgor er mwyn craffu ar y gyllideb atodol. Fodd bynnag, er mwyn helpu'r Pwyllgor i graffu ar y gyllideb atodol, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu rhagor o fanylion am y meysydd canlynol.

**Cyllideb Adnodd**

Hoffai'r Pwyllgor gael dadansoddiad o sut y disgwylir i godi'r incwm ychwanegol. Fel y gwyddoch, cafwyd trafodaeth yn y Pwyllgor ynghylch y penderfyniad i ddechrau codi arian am y maes parcio yn ystod gwaith craffu ar y gyllideb yn 2011.
A fyddech cystal â darparu'r canlynol:

- y wybodaeth ddiweddaraf am refeniw a chostau y cynllun maes parcio ar gyfer 2014-15 a sut mae hyn yn cymharu â'r amcangyfrifon yn y gyllideb yr hydref diwethaf; a
- sut mae hyn wedi newid ers dechrau'r cynllun?

Er nad oes newid yn y gofyniad o ran arian parod cyffredinol o Gronfa Gyfunol Cymru, mae'r Pwyllgor yn nodi ei bod yn ymddangos bod yr arian wedi newid o gyfalaf i refeniw. A allech chi gadarnhau y bu trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch y bwriad hwn gan nad oes manylion am hyn yn y nodyn esboniadol.

**Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME)**

Mewn cysylltiad â'r newid mewn pensiwn, hoffem gael rhagor o fanylion am y newid hwn ar 31 Mawrth pan fydd y gwerthoedd terfynol wedi'u cyfrifo.

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA
Ffôn / Tel: 029 2089 8120
E-bost / Email: SeneddCyllid@cynulliad.cymru
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh

Er mwyn i'r Pwyllgor ystyried Cyllideb Atodol Comisiwn y Cynulliad yn ein cyfarfod ar 25 Chwefror, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn dydd Mercher 18 Chwefror (heblaw am y mater ynghylch pensiwn).

Yn gywir

**Jocelyn Davies AC**
Cadeirydd